**Taflen nodiadau**

# Benthyciadau Argyfwng
## o'r Gronfa Gymdeithasol

canolfanbydgwaith

Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus. Maent yn esbonio'r amgylchiadau pan ellir talu benthyciad. Mae amgylchiadau gwahanol yn berthnasol i daliadau Grantiau Gofal Cymunedol a Benthyciadau Argyfwng. Os credwch y gallech fod yn gymwys i gael y naill neu'r llall o'r mathau hyn o daliadau, darllenwch yr adran ar yr ochr dde o'r dudalen hon neu'r adran ar ochr arall y dudalen hon.

Bydd yn rhaid i chi lenwi'r ffurflen gais gywir ar gyfer y math o daliad sydd ei angen arnoch, sef:

- ffurflen **SF300W** ar gyfer Grant Gofal Cymunedol
- ffurflen **SF500W** ar gyfer Benthyciad Trefnu
- ffurflen **SF401W** ar gyfer Benthyciad Argyfwng
- ffurflen **SF100W** (Cychwyn Cadarn) ar gyfer Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn
- ffurflen **SF200W** ar gyfer Taliad Angladd

Mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob un.

## Benthyciad Argyfwng

**Gallech gael Benthyciad Argyfwng:**

- os ydych yn 16 neu drosodd,

**ac**

- os nad oes gennych ddigon o arian mewn argyfwng neu oherwydd trychineb i gwrdd â'ch anghenion chi a rhai eich teulu, os oes gennych un, ar unwaith,

**ac**

- os nad oes unrhyw ffordd arall i atal niwed difrifol neu risg difrifol i'ch iechyd, neu eich diogelwch chi eich hun neu aelod o'ch teulu.

**SF401W 04/09**

**Efallai y byddwch hefyd yn gallu cael Benthyciad Argyfwng os ydych angen help gyda talu rent ymlaen llaw**

- unai mewn argyfwng neu o ganlyniad i drychineb, neu
- i landlord nad yw'n awdurdod lleol oherwydd eich bod yn symud allan o gartref gofal neu ofal sefydliadol ac mae Grant Gofal Cymunedol yn cael ei dalu i'ch sefydlu yn y gymdeithas.

**Mae'n rhaid ad-dalu Benthyciadau Argyfwng ond maent yn ddi-log.**

## Sut byddwn yn penderfynu beth y gallwn ei dalu i chi

Bydd y swyddog penderfyniadau yn edrych ar holl amgylchiadau'r cais cyn penderfynu a ellir gwneud taliad. Dim ond swm cyfyngedig o arian sydd ar gael ar gyfer benthyciadau a grantiau, ac mae'n rhaid i'r swyddog penderfyniadau gwrdd ag anghenion blaenoriaeth uchel yn gyntaf.

## Sut i ad-dalu'r benthyciad

- Os gallwn dalu Benthyciad Argyfwng i chi, byddwn yn gofyn i chi gytuno ei ad-dalu ac hefyd y ffordd byddwch yn ei ad-dalu cyn y gallwn wneud y taliad.
- Byddwn yn edrych ar faint y gallwch chi ei fforddio cyn penderfynu faint y bydd yn rhaid i chi ei ad-dalu.
- Byddwn yn cymryd yr arian yn ôl mewn ad-daliadau wythnosol o'ch budd-dal. Os nad ydych chi, neu'ch partner, yn cael unrhyw fudd-dal, byddwn yn trefnu gyda chi i'r benthyciad gael ei ad-dalu.
- Os ydych yn cael anhawsterau nes ymlaen yn gwneud yr ad-daliadau fel y cytunwyd yn wreiddiol, fe allwn eich helpu, er enghraifft gostwng eich taliadau wrth ymestyn cyfnod yr ad-daliad. Fe all eich swyddfa Canolfan Byd Gwaith roi cyngor i chi.

*Nodiadau* **Ynglŷn â'ch cais**

## Benthyciad Trefnu

- **Efallai y gallwch gael Benthyciad Trefnu:**
  os ydych wedi bod yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn am 26 wythnos o leiaf, **ac**
- os oes angen help arnoch
  - i brynu dodrefn neu offer i'r cartref
  - i brynu dillad ac esgidiau
  - i dalu rhent ymlaen llaw a/neu dreuliau symud i sicrhau llety newydd
  - i dalu am welliannau i'r cartref, gwaith cynnal a chadw neu ddiogelwch
  - gyda threuliau teithio
  - i dalu am bethau i'ch helpu i chwilio am waith neu i ddechrau gweithio
  - i ad-dalu Hur Bwrcas neu ddyledion eraill a drefnwyd.

**Mae'n rhaid ad-dalu Benthyciadau Trefnu ond maent yn ddi-log.**

## Help a chyngor

Os hoffech gael mwy o wybodaeth

- cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith. Cewch hyd i'r rhif ffôn a'r cyfeiriad ar yr hysbyseb yn yr adran rhifau busnes o'r llyfr ffôn. Edrychwch o dan **Jobcentre Plus**. Hefyd gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein gwefan. Y cyfeiriad yw **www.dwp.gov.uk**
  **neu**
- cysylltwch â chanolfan gynghori fel Cyngor Ar Bopeth.

## Ein safonau gwasanaeth

Yn y Ganolfan Byd Gwaith ein nod yw darparu safon uchel o wasanaeth i gwsmeriaid bob amser. Gellir dod o hyd i fanylion safon y gwasanaeth y gallwch ei ddisgwyl gennym ar ein gwefan yn **www.canolfanbydgwaith.gov.uk**

Gallwch gael mynediad i’n gwefan mewn llawer o lyfrgelloedd.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â’r Ganolfan Byd Gwaith.

## Grant Gofal Cymunedol

**Efallai y gallwch gael Grant Gofal Cymunedol:**

- os ydych eisoes yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn

**neu**

- os ydych yn debygol o gael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn yn ystod y chwe wythnos nesaf oherwydd eich bod yn gadael gofal sefydliadol neu ofal preswyl

**ac**

- eich bod yn symud allan o ofal sefydliadol neu ofal preswyl, neu
- mae angen help arnoch i aros yn eich cartref eich hun, neu
- mae gan eich teulu broblemau anodd iawn, neu
- eich bod yn symud am eich bod wedi cael ffordd o fyw ansefydlog a bod sefydliad fel cyngor neu elusen yn eich ailgartrefu, neu
- mae angen help arnoch i deithio am resymau arbennig, neu
- mae angen help arnoch am fod carcharor neu droseddwr ifanc yn mynd i fod yn byw gyda chi tra byddant wedi'u rhyddhau ar drwydded dros dro.

**Nid oes rhaid ad-dalu grantiau Gofal Cymunedol.**

**Cynilion**

- Os ydych chi a'ch partner o dan 60 oed, gallai cynilion dros £500 effeithio ar y swm o arian a gewch.
- Os ydych chi neu'ch partner yn 60 oed neu fwy, gall cynilion o fwy na £1,000 effeithio ar y swm o arian y gallech ei dderbyn.

**Canllaw cyffredinol yn unig yw'r nodiadau hyn ac ni ddylid ei drin fel datganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith.**

**Datgysylltwch y dudalen hon a chadwch hi er gwybodaeth ▶**

# *Rhan 1* Amdanoch chi a'ch teulu

- Mae'r ffurflen hon ar gyfer ceisiadau i'r Gronfa Gymdeithasol. Darllenwch y nodiadau a ddaeth gyda'r ffurflen hon cyn ei llenwi, os gwelwch yn dda.
- Dywedwch wrthym amdanoch chi a'ch partner, os oes gennych un. Mae *partner* yn golygu
  – person rydych yn briod â hwy neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy, neu
  – bartner sifil neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn batneriaid sifil.
- Llenwch y ffurflen yn llawn trwy ateb pob cwestiwn a chais am wybodaeth. **Efallai y bydd oedi wrth ddelio â'ch cais os na chawn yr holl wybodaeth y mae arnom ei hangen.**

## Benthyciad Argyfwng o'r Gronfa Gymdeithasol

| | **Chi** | **Eich partner** |
|---|---|---|
| **Cyfenw neu enw teuluol** | Mr / Mrs / Miss / Ms | Mr / Mrs / Miss / Ms |
| Unrhyw **gyfenwau** **eraill rydych wedi cael eich adnabod wrthynt** | | |
| **Pob enw arall** yn llawn | | |
| **Dyddiad geni** | / / | / / |
| **Y cyfeiriad lle rydych yn byw nawr**<br>Dywedwch wrthym beth yw cyfeiriad eich partner, os yn wahanol. | Cod post | Cod Post |
| **Rhif ffôn yn ystod y dydd** | Cod Rhif | Cod Rhif |
| **Beth yw'r rhif hwn?** | Cartref ☐ gwaith ☐ symudol ☐ ffacs ☐<br>Ticiwch os gwelwch yn dda. Bydd hyn yn ein helpu i ddelio â'ch cais yn gyflymach. | Cartref ☐ gwaith ☐ symudol ☐ ffacs ☐<br>Ticiwch os gwelwch yn dda. Bydd hyn yn ein helpu i ddelio â'ch cais yn gyflymach. |
| **Rhif Yswiriant Gwladol (YG)** | Llythrennau Rhifau Llythyren<br>☐ ☐ ☐ ☐ ☐<br>Mae'r rhif ar eich cerdyn Yswiriant Gwladol (YG), llythyrau ynglŷn â'ch budd-dal neu slipiau cyflog | Llythrennau Rhifau Llythyren<br>☐ ☐ ☐ ☐ ☐<br>Mae'r rhif ar eich cerdyn Yswiriant Gwladol (YG), llythyrau ynglŷn â'ch budd-dal neu slipiau cyflog |

**At ddefnydd swyddfa yn unig**

Dyddiad mewnbwn SFCS
/ /

Blaen lythrennau

Rhif y cais

Tystiolaeth o hunaniaeth

# *Rhan 1* Amdanoch chi a'ch teulu parhad

**Dywedwch wrthym am y plant neu bobl ifanc sy'n gymwys sy'n byw gyda chi ac rydych yn eu cynnal.**

- Mae *plentyn* yn golygu person o dan 16 oed rydych yn cael Budd-dal Plant ar ei gyfer.
- Mae *person ifanc sy'n gymwys* yn golygu person 16, 17, 18 neu 19 oed rydych yn cael Budd-dal Plant ar ei gyfer.

| Enw | Dyddiad geni |
|---|---|
| | / / |
| | / / |
| | / / |
| | / / |
| | / / |

- Os bydd angen mwy o le arnoch, defnyddiwch **Ran 6**.

**Dywedwch wrthym am bawb arall sy'n byw gyda chi.**
Ond os oes gennych bartner, nid oes angen i chi ddweud wrthym amdanynt yma.

| Enw | Dyddiad geni os o dan 18 oed | Eu perthynas â chi |
|---|---|---|
| | / / | |
| | / / | |
| | / / | |
| | / / | |
| | / / | |

**Ydych chi neu'ch partner yn destun cosb neu gwaharddiad Lwfans Ceisio Gwaith neu gosb am fethu â mynychu cyfweliad sy'n canolbwyntio ar waith?**

**Na** ☐
**Ydym** ☐

**Ydych chi neu'ch partner**
- **yn cymryd rhan mewn anghydfod masnachol**
- **yn byw mewn cartref gofal neu ysbyty**
- **yn aelod o urdd grefyddol**
- **yn fyfyriwr mewn prifysgol, coleg neu ysgol**
- **yn berson o dramor**
- **yn y carchar neu wedi rhyddhau o garchar ar drwydded dros dro?**

**Na** ☐
**Ydym** ☐ Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â hyn.

# *Rhan 2* Ynglŷn â'r argfwng

**Dim ond os oes argyfwng neu os bu trychineb y gallwn dalu Benthyciad Argyfwng.**

**Beth yw'r argyfwng a beth a'i achosodd?**
Dywedwch
- beth yw'r broblem
- beth sydd wedi digwydd
- pryd y digwyddodd.

**Os gwariwyd arian, dywedwch ar beth.**

- Os bydd angen mwy o le arnoch, defnyddiwch **Ran 6**.

**Os cafodd arian ei golli neu ei ddwyn, dywedwch faint sydd ar goll.**

£

**Ydych chi wedi gwahanu oddi wrth rywun yn ddiweddar?**

**Na** ☐

**Ydw** ☐ Dywedwch wrthym am y person rydych wedi gwahanu oddi wrthynt.

Eu henw llawn

Dyddiad geni  / /

Eu rhif Yswiriant Gwladol (YG)

Dyddiad gwahanu  / /

Eu cyfeiriad

Cod Post

A oedd y person yma yn gwneud cais am fudd-dal ar eich rhan chi?

**Na** ☐

**Oedd** ☐

# *Rhan 2* Ynglŷn â'r argfwng parhad

**Dim ond os bydd risg ddifrifol i'ch iechyd neu'ch diogelwch chi, aelod o'ch teulu, neu rywun rydych yn gofalu amdanynt, os na chewch unrhyw arian, y gallwn dalu Benthyciad Argyfwng.**

**Dywedwch beth fydd y risg ddifrifol.**

- Os bydd angen mwy o le arnoch, defnyddiwch **Ran 6**.

**Dywedwch faint fydd ei angen arnoch ac ar gyfer beth**
Efallai na allwn bob amser gynnig y swm llawn y gofynnoch amdano.

- Os bydd angen mwy o le arnoch, defnyddiwch **Ran 6**.

**Ydych chi'n gwneud cais am eitemau i'r cartref?**

**Na** ☐ Ewch i **Ran 3**.
**Ydw** ☐ Dywedwch wrthym am hyn isod.

| Beth sydd ei angen arnoch? | Pam sydd ei angen arnoch? | Ar gyfer pwy mae hyn? | Beth yw'r gost? |
|---|---|---|---|
| | | | £ |
| | | | £ |
| | | | £ |
| | | | £ |

## *Rhan 2* Ynglŷn â'r argfwng parhad

| Beth sydd ei angen arnoch? | Pam sydd ei angen arnoch? | Ar gyfer pwy mae hyn? | Beth yw'r gost? |
|---|---|---|---|
| | | | £ |
| | | | £ |
| | | | £ |
| | | | £ |
| | | | £ |

**Ydych chi'n gwneud y cais hwn oherwydd fod Benthyciad Trefnu wedi cael ei wrthod i chi?**

**Na** ☐

**Ydw** ☐ Ar ba ddyddiad wnaethoch chi wneud cais am Fenthyciad Trefnu? / /

## *Rhan 3* Ynglŷn ag arian rydych chi neu'ch partner yn ei gael

**Dywedwch wrthym am unrhyw arian rydych chi neu'ch partner yn ei gael yn rheolaidd.**
Rydym yn golygu pethau fel budd-daliadau a hawliadau (fel Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Credyd Pensiwn a Budd-dal Plant), pensiynau, credydau treth, cyflogau a thaliadau cynhaliaeth.

| Y math o arian a gewch | Faint ydych yn ei gael a pha mor aml? | Pryd y cawsoch daliad ddiwethaf? | Pryd byddwch chi'n cael eich taliad nesaf? |
|---|---|---|---|
| | £ bob | / / | |
| | £ bob | / / | |
| | £ bob | / / | |
| | £ bob | / / | |

## *Rhan 3* Ynglŷn ag arian rydych chi neu'ch partner yn ei gael parhad

**Ydych chi neu'ch partner wedi cael unrhyw arian yn ddiweddar heblaw am eich incwm rheolaidd?**
Rydym yn golygu pethau fel cyflogau terfynol neu dâl gwyliau.

**Na** ☐
**Ydym** ☐ Dywedwch wrthym am hyn.

| Y math o arian a gawsoch | Swm | Pryd y cawsoch y taliad? | A oes mwy yn ddyledus? |
|---|---|---|---|
| | £ | / / | / / |
| | £ | / / | / / |
| | £ | / / | / / |
| | £ | / / | / / |

## *Rhan 4* Ynglŷn â chynilion neu arian arall y gallech eu defnyddio

**Oes gennych chi, eich partner, neu'ch plant neu bobl ifanc sy'n gymwys, unrhyw arian?**
Mae hyn yn cynnwys arian parod.

**Na** ☐
**Oes** ☐ Faint? £

**Oes gennych chi neu'ch partner gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu?**
Mae hyn yn cynnwys cyfrif Banc Cynilion Cenedlaethol

**Na** ☐
**Oes** ☐

**Oes gennych chi, eich partner neu'ch plant neu bobl ifanc sy'n gymwys, unrhyw gynilion?**
Cynhwyswch arian mewn
- banc
- cymdeithas adeiladu
- cyfrif undeb credyd
- Tystysgrifau Cynilion Cenedlaethol
- bondiau premiwm
- cyfranddaliadau.

**Na** ☐
**Oes** ☐ Faint? £

Dywedwch ble y delir yr arian hwn

# *Rhan 4* Ynglŷn â chynilion neu arian arall y gallech eu defnyddio parhad

**Oes unrhyw arian arall y gallech chi neu'ch partner ei ddefnyddio?**
Gallai hwn fod drwy
- gerdyn credyd
- benthyciadau neu orddrafft gan fanc
- cerdyn siop
- polisïau yswiriant y gallech chi neu'ch partner eu gwneud.

**Na** ☐

**Oes** ☐ Faint? £

Dywedwch wrthym am hyn

---

**Allwch chi neu'ch partner gael help o unrhyw le arall, mewn arian parod neu daliad mewn nwyddau?**
Gallai hyn fod gan
- berthnasau a ffrindiau
- cyflogwyr
- elusennau a chronfeydd dyngarol.

Cynhwyswch eitemau y gallwch eu benthyca.

**Na** ☐

**Gallwn** ☐ Dywedwch wrthym am hyn

---

**Ydych chi neu'ch partner yn berchen ar unrhyw eiddo, ac eithrio'r lle rydych chi'n byw ynddo?**

**Na** ☐

**Ydym** ☐ Dywedwch wrthym am hyn

- Os bydd angen mwy o le arnoch, defnyddiwch **Ran 6**.

# *Rhan 5* Ynglŷn â'r arian y mae'n rhaid i chi ei dalu allan

**Oes rhaid i chi neu'ch partner dalu unrhyw arian allan yn rheolaidd?**
Peidiwch â chynnwys unrhyw arian a allai fod eisoes wedi'i gymryd o unrhyw fudd-dal a gewch.
Cynhwyswch bethau fel
- arian catalog
- taliadau hur bwrcas
- taliadau benthyciadau.

Mae angen y wybodaeth hon arnom i'n helpu i weithio allan faint o arian y gallwch fforddio ei ad-dalu bob wythnos os cewch fenthyciad.

**Na** ☐
**Oes** ☐ Dywedwch wrthym am hyn.

| I bwy rydych chi'n talu'r arian? | Faint rydych chi'n ei dalu a pha mor aml? | Faint sy'n ddyledus? |
|---|---|---|
| | £ bob | £ |
| | £ bob | £ |
| | £ bob | £ |
| | £ bob | £ |
| | £ bob | £ |
| | £ bob | £ |

# *Rhan 6* Gwybodaeth arall

## Manylion Swyddfa'r Post®

**Darparwch fanylion eich swyddfa'r post leol**

| |
|---|
| |
| |
| |
| Cod Post |

**Defnyddiwch y gofod yma i nodi unrhyw beth arall wrthym y teimlwch y gallai fod angen i ni wybod. Cynhwyswch fanylion am unrhyw broblemau iechyd difrifol sydd gennych chi, eich partner, neu rywun rydych chi'n gofalu amdanynt.**
Os nad oes digon o le, defnyddiwch ddalen o bapur ar wahân. Cofiwch roi eich enw llawn a'ch rhif Yswiriant Gwladol (YG) ar unrhyw ddalennau ar wahân o bapur a ddefnyddiwch.

# *Rhan 7* I bobl sy'n llenwi ac sy'n llofnodi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall

**Ydych chi wedi llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall?**

**Na** ☐ Ewch i **Ran 8**.

**Ydw** ☐ Dywedwch wrthym amdanoch chi eich hun.

**Dywedwch wrthym pam rydych yn llenwi ac yn llofnodi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall.**

Rwy'n anfon llythyr wedi'i lofnodi gan y cwsmer gyda'r ffurflen hon. Mae'r llythyr hwn yn dweud wrthych eu bod yn cytuno i mi wneud y cais hwn ar eu rhan. ☐ Nawr llofnodwch y ffurflen hon yn **Rhan 8**.

Fi yw eu penodai ☐

Mae gennyf bŵer atwrnai ☐

Enw llawn: Mr / Mrs / Miss / Ms

Dyddiad geni: / /

Cyfeiriad:

Postcode

Rhif ffôn: Cod Rhif

Beth yw'r rhif hwn?
Ticiwch

Cartref ☐ gwaith ☐ symudol ☐ ffacs ☐

Nawr llofnodwch y ffurflen hon yn **Rhan 8**.

# *Rhan 8* Dataganiad

**Rwy'n datgan** bod y wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

**Rwyf yn deall** y gellir dwyn achos neu gamau eraill yn fy erbyn os byddaf yn rhoi gwybodaeth sy'n anghywir neu'n anghyflawn yn fwriadol.

**Rwyf yn deall** y bydd yn rhaid i mi ad-dalu unrhyw fenthyciad y gallwn ei gael.

**Rwyf hefyd yn deall** os telir y benthyciad hwn, y gellid cymryd arian o'm budd-dal neu o fudd-dal fy mhartner er mwyn ei ad-dalu.

**Dyma fy nghais am daliad o'r Gronfa Gymdeithasol.**

**Llofnod**

**Dyddiad** / /

---

**Llofnod penodai**

**Dyddiad** / /

## *Rhan 9* Beth i'w wneud nawr

- Edrychwch drwy'r ffurflen hon a gwnewch yn siwr eich bod wedi ateb pob cwestiwn ac wedi rhoi'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani. **Efallai y bydd oedi wrth ddelio â'ch cais os na chawn yr holl wybodaeth y mae arnom ei hangen.**
- Os ydych wedi gwneud unrhyw ddiwygiadau, gwnewch yn siwr eich bod yn eu llofnodi a'u dyddio.
- Gwnewch yn siwr eich bod wedi llofnodi'r ffurflen yn **Rhan 8**.
- Anfonwch neu ewch â’r ffurflen hon i’r Ganolfan Byd Gwaith. Gallwch ddod o hyd i’r rhif ffôn a’r cyfeiriad ar yr hysbyseb yn adran rhifau busnes y llyfr ffôn. Edrychwch o dan **Jobcentre Plus**.

## *Rhan 10* Sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Mae'r wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch a sut rydym yn ei defnyddio yn dibynnu'n bennaf ar y rheswm dros eich busnes gyda ni. Ond fe allwn ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer unrhyw ddibenion yr Adran, sy'n cynnwys

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynnal plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- polisi pensiynau preifat, a
- cynllunio ar gyfer ymddeol.

Efallai y byddwn yn cael gwybodaeth gan eraill er mwyn gwirio'r wybodaeth rydych yn ei roi i ni ac i wella ein gwasanaethau. Efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth i rai sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft er mwyn amddiffyn yn erbyn troseddau.

I gael mwy o wybodaeth am y ffordd rydym yn defnyddio gwybodaeth, ymelwch â’n gwefan **www.dwp.gov.uk/welsh/privacy.asp** neu gysylltu ag unrhyw un o’n swyddfeydd.